# Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn cynnig gweithgareddau dysgu ar gyfer eich disgyblion gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n rhan o gyfres o dri adnodd dysgu sy'n ymwneud ag Abertawe yn y 1850au.

Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau
**Abertawe Oes Fictoria - Pobl a'u Pethau**
Abertawe Oes Fictoria - Storïau Pobl

## Cam Cynnydd 3

## Teitl Abertawe Oes Fictoria - Pobl a'u Pethau

## Awdur Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Amgueddfa Cymru

## Cyflwyniad

**Pa fath o bethau oedd yng nghartrefi pobl Abertawe ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Mewn amgueddfa, fe welwch bethau oedd gan bobl yn eu cartrefi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae rhai o'r rhain wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth yn y teulu, rhai wedi'u canfod gan archaeolegwyr, rhai wedi'u prynu neu eu benthyg a rhai wedi'u rhoi'n rhodd i'r amgueddfa. Mae rhai'n ymwneud â gwaith pobl, roedd rhai'n cael eu defnyddio yn y cartref, a rhai'n eitemau ar gyfer hamdden.

Mae pethau yn gallu dweud llawer am y ffordd yr oedd pobl yn byw, pa mor dlawd neu gyfoethog yr oeddent a pha fath o ddefnyddiau oedd ar gael. Cawn weld hefyd pa fath o bethau oedd yn cael eu prynu a'u gwerthu, eu defnyddio a'u trysori, a'u taflu neu eu colli gan bobl yn y gorffennol.

Gallwch gysylltu'r Gweithgaredd Dysgu hwn â gweithdai i ysgolion yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Abertawe.

**Amcanion dysgu**
Bydd y disgyblion yn gallu:

- Astudio newidiadau ym mywydau bob dydd pobl yr ardal yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Gweld ym mha ffyrdd y caiff y gorffennol ei gynrychioli/ddehongli
- Deall pam yr oedd pobl yn gwneud pethau, beth arweiniodd at ddigwyddiadau penodol a beth oedd canlyniadau'r digwyddiadau hynny
- Gwahaniaethu rhwng 'ffaith' a 'barn' gan roi rhesymau wedi'u seilio ar dystiolaeth/gwybodaeth

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

## Tasg 1. Pobl a'u Pethau – rhoi trefn ar bethau

**Pa fath o bethau oedd yng nghartrefi pobl Abertawe ynghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Defnyddiwch y 48 cerdyn gwrthrych ar gyfer eitemau o gasgliad trin a thrafod Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a chasgliadau Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Abertawe a welir yn Arddangosfa Cyfrifiad 1851.

Dylai fod gan bob grŵp set o gardiau gwrthrych.

1. Edrychwch ar y pethau a meddyliwch amdanynt.

2. Mewn grwpiau, penderfynwch sut y byddech yn trefnu'r pethau yn grwpiau. Pa rai fyddech chi'n eu rhoi gyda'i gilydd mewn grŵp a pham? Trefnwch o leiaf 4 grŵp o bethau gan ddefnyddio gwahanol feini prawf ar gyfer y dewis.

3. Rhowch label ar bob grŵp. Arddangoswch y grwpiau gan ddefnyddio'r labeli a ddewiswyd gennych. Ar ôl i bawb orffen, cerddwch o gwmpas i weld sut y mae'r grwpiau eraill wedi trefnu'r pethau.

4. Dewch yn ôl at eich gilydd a thrafod gyda'r dosbarth cyfan pam mai fel hyn yr ydych wedi'u grwpio. Faint o wahanol labeli sydd gan y dosbarth ar gyfer yr un pethau? Pa labeli a dulliau o grwpio oedd fwyaf defnyddiol ym marn y dosbarth? Ydyn ni'n gwybod beth yw'r holl eitemau?

Cardiau Gwrthrych 1-24
Cardiau Gwrthrych 25-48

## Tasg 2. Pobl a'u Pethau – yn nhŷ pwy?

Sylwch: Peidiwch â gwneud y dasg hon os yw'ch dosbarth yn gwneud y gweithdai Dod â'r Cyfrifiad yn Fyw yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau gan y byddant yn ei gwneud yn yr Amgueddfa gyda phethau go iawn. Gallech wneud hyn ar ôl yr ymweliad.

Defnyddiwch y 48 o Gardiau gwrthrych fel ar gyfer Tasg 1.

Edrychwch ar gofnodion cyfrifiad rhai o drigolion Abetawe Pobl cyfrifiad 1851 Abertawe – trawsgrifiad Excel

Bydd eich grŵp naill ai'n edrych ar bob un o'r 13 o drigolion Abertawe ac yn rhannu'r cardiau rhyngddynt NEU bydd pob grŵp neu bâr yn canolbwyntio ar UN neu DDAU o'r trigolion ac yn dewis y pethau yr ydych yn credu y gallai fod ganddynt yn eu tai.

Tasg eich grŵp yw penderfynu pa bethau fyddai gan y gwahanol drigolion yn eu cartrefi. Bydd angen i chi feddwl pam yr ydych wedi gwneud y dewisiadau hyn.

Meddyliwch: A allai rhai o'r pethau fod mewn mwy nag un o'r tai?

A allai rhai o'r pethau fod yn y tai i gyd?

Beth mae'r pethau'n ei ddweud am ddosbarth cymdeithasol y bobl, eu gwaith a'u diddordebau?

## Tasg 3. Pobl a'u Pethau – Hysbysebion Ocsiynau

**Sut arall allwn ni gael gwybod beth oedd gan bobl yn eu tai?**

Meddyliwch am y dodrefn sydd gennych chi yn eich cartref heddiw. Yn eich grŵp, gwnewch restr o'r prif eitemau o ddodrefn sydd gennych yn eich cartref, er enghraifft, soffa, bwrdd coffi, set deledu, bwrdd a chadeiriau, ac ati. A oes pethau tebyg gan bob aelod o'r grŵp yn eu tai?

Nawr, edrychwch ar rai o'r Hysbysebion Ocsiynau a gyhoeddwyd ym mhapur newydd *The Cambrian* ym 1849 a dechrau'r 1850au. Maen nhw'n rhestru eitemau o ddodrefn a phethau eraill yr oedd pobl yn eu gwerthu mewn ocsiwn. Fel rheol, roedd hyn yn digwydd os oedd pobl yn symud o'r ardal, os oeddent mewn trafferthion ariannol neu os oedd rhywun wedi marw.



Hysbyseb Ocsiwn yn *The Cambrian,* 4 Tachwedd 1853

[Hysbysebion Ocsiynau]

Efallai na fyddwch yn gwybod beth yw llawer o'r pethau yn rhestrau'r Ocsiynau. Defnyddiwch y rhyngrwyd i chwilio am y pethau hyn. Rydyn ni wedi creu rhestr o ddodrefn ac eitemau'r cartref o'r Hysbysebion Ocsiynau i'ch helpu. **Mae hwn ar ddiwedd yr adnodd dysgu hwn.**

Trafodwch pa mor wahanol yw'r rhestrau hyn i'r rhestr a wnaeth eich grŵp chi. Beth yw'r prif wahaniaethau? A oes rhywbeth yn debyg rhyngddynt?

Edrychwch eto ar yr Hysbysebion Ocsiynau. Beth sy'n debyg yn y dodrefn a'r pethau oedd gan bobl yn eu cartref?

Edrychwch ar yr Hysbysebion Ocsiynau i weld pa fath o ddefnyddiau sy'n ffasiynol ar gyfer dodrefn yn y 1850au? Er enghraifft, o beth roedd matresi/gwelyau'n cael eu gwneud?

Beth oedd cyfeiriadau'r bobl yr oedd eu pethau'n cael eu gwerthu? Beth oedd y rheswm dros hynny?

Ydi'r hysbysebion hyn yn ffordd dda o ddeall sut yr oedd pobl Oes Fictoria yn dodrefnu eu tai? Beth sy'n eu gwneud yn ddefnyddiol? Ydyn nhw'n dweud llawer wrthon ni am bawb oedd yn byw yn Abertawe yn y 1850au? Pam rydych chi'n meddwl nad oedd hysbysebion ar gyfer Morris Lane na'r cyrtiau oddi ar y Stryd Fawr?

Am hwyl, edrychwch i weld beth oedd gan bobl ffasiynol oedd yn byw yn nhrefedigaethau Prydain yn eu tai yn 1853. Cliciwch ar y ddolen isod ac edrych ar yr Hysbysebion Ocsiynau o *The Courier* yn Nhref Hobart ar ddydd Mawrth 30 Awst 1853. Edrychwch ar hysbyseb bwthyn Mr Brown a'r un otano ar gyfer y Cyrnol Butterworth o Holbrook Place, yn Tasmania (Awstralia). Pa mor debyg yw'r pethau oedd yn eu tai nhw i'r pethau oedd mewn tai yn Abertawe yn yr un cyfnod?

https://trove.nla.gov.au/newspaper/article/2243757

## Tasg 4. Pobl a'u Pethau – Ffotograffau

Ydi ffotograffau'n gallu rhoi syniad i ni beth oedd gan bobl yn eu tai tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Heddiw, gallwn edrych ar ffotograffau i weld beth oedd gan bobl yn eu tai yn y gorffennol agos. Yn y 1850au, roedd ffotograffiaeth yn beth cymharol newydd. Mae angen golau i dynnu lluniau ac roedd y ffotograffwyr cynnar yn dibynnu ar olau'r haul, felly roedd y rhan fwyaf o luniau'n cael eu tynnu y tu allan. Roedd John Dillwyn Llewelyn (1810-1882) a oedd yn byw ym Mhenlle'r-gaer ger Abertawe yn ffotograffydd cynnar o bwys. Gallwch weld John Dillwyn yn yr hunan-bortread hwn gyda'i gamera a'r babell roedd yn ei defnyddio fel ystafell dywyll symudol ym 1853. Edrychwch ar ei luniau a dynnwyd tua'r 1850au ac fe welwch bod y rhan fwyaf wedi'u tynnu y tu allan.



John Dillwyn Llewelyn tua 1853

https://www.casgliadywerin.cymru/items/24286

Dyma gyfle i weld lluniau a dynnwyd gan John Dillwyn

http://www.penllergare.org/victorian-paradise/photography/

http://www.swanseamuseum.co.uk/cy/?s=john_dillwyn_llewelyn

http://www.luminous-lint.com/app/photographer/John___Llewelyn/C/

http://www.photography-news.com/2011/01/john-dillwyn-llewelyn-early-swansea.html

A oes rhai o'r lluniau'n ein helpu i ddysgu mwy am y ffordd yr oedd pobl yn byw ac yn gweithio a pha fath o bethau oedd ganddynt tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

Ydi'r lluniau hyn yn ein helpu i ddeall bywydau pobl yn Abertawe a'r cylch yn y 1850au?


A oes cwestiynau yr hoffech eu gofyn i John Dillwyn Llewelyn neu ei deulu?

## Tasg 5. Pobl a'u Pethau – Cyfeiriaduron Masnach

Ffordd arall o gael gwybod beth fyddai gan bobl yn eu tai yw edrych ar y math o bethau oedd yn cael eu cynhyrchu yn yr ardal a'u gwerthu yn siopau Abertawe. Mae papurau newydd a chyfeiriaduron masnach yn llefydd da i weld hysbysebion sy'n gallu dweud llawer wrthym am y math o bethau y gallai pobl eu prynu.

Daw'r hysbysebion hyn o *Pearse's Swansea Directory* ar gyfer 1856. Mae cofnod am Ebenezer Pearse i'w weld yng Nghyfrifiad 1851.










[Hysbysebion o Pearse's Swansea Directory ar gyfer 1856]

Edrychwch ar y pedwar cyfeiriadur masnach.

Ydi siopau'n dal i werthu pethau tebyg heddiw? Beth rydyn ni'n galw'r siopau hyn heddiw? Ydyn nhw'n wahanol erbyn hyn? e.e. mae siopau 'stationer' gennym o hyd ond siopau gemwaith ac optegwyr *(jewellers and opticians*) sydd gennym yn lle '*Malachyte Ornament Manufacturer*'.

Gweithgaredd: Ewch ati i greu cyfeiriadur masnach, gyda hysbysebion ar gyfer pethau modern, ond defnyddiwch yr un arddull â'r cyfaeiriaduron o Oes Fictoria. Sut fyddech chi'n gwerthu teganau, llyfrau, gemau cyfrifiadurol neu ffilmiau gan defnyddio iaith a hiwmor pobl Oes Fictoria?

Rhestr o ddodrefn ac eitemau cartref Fictoraidd i ategu Tasg 3.

**BETH SYDD GENNYCH CHI YN EICH TŶ?**

Cafodd yr eitemau hyn o dai yn Abertawe eu rhestru mewn Hysbysiadau Ocsiynau yn *The Cambrian* rhwng 1849 a 1854.

Llieiniau
Gwelyau a dillad gwely
Llenni cotwm rib
Croglenni cotwm rib a chintz
Fframiau gwely Ffrengig mahogani, rhai wedi'u paentio ac eraill
Fframiau gwely 4 postyn mahogani a rhai wedi'u paentio
Fframiau gwely Ffrengig mahogani a rhai eraill gyda chroglenni cotwm rib
Grisiau gwely
Matresi blew gorau
Gwelyau plu, gobenyddion hir, gobenyddion, matresi gwellt a blancedi
Dodrefn cotwm rib
Cypyrddau dillad
Standiau basnau ymolchi
Llestri llofft
Bidets
Byrddau toiled
Cistiau dillad mahogani
Drychau siglo mahogani
Byrddau gwisgo wedi'u paentio
Cadeiriau ystafell wely
Bwrdd crwn rhosbren
Byrddau cardiau rhosbren
Bwrdd cinio rhosbren a mahogani
Cheffioneers rhosbren a mahogani
Bwrdd bach
Bwrdd Penfro
Bwrdd gwyddbwyll
Silff lyfrau a desg ysgrifennu fahogani
Bwrdd gweithio
Bwrdd cardiau crwn mahogani
Cadeiriau mahogani â seddau blew ceffyl
Cadeiriau ystafell giniawa a pharlwr
Seidbordiau
Soffas
Cowtshis
Cadeiriau esmwyth
Piano
Canterbury
Stôl biano
Cloc wyth niwrnod
Carpedi Fenis a Kidderminster
Carpedi Brwsel ac eraill
Matiau o flaen tân
Clytiau llawr
Matiau rhaffau a gwlân
Lamp gyntedd
Bwrdd a chadeiriau cyntedd

## Parhad.

Stand ambarelau
Hatstand
Cloc tywydd
Ffenderydd
Heyrn tân
Llestri cinio a phwdin
Llestri cinio crochenwaith caled
Llestri brecwast tsieina
Llestri te tsieina
Gwydrau lampau
Drychau gwisgo
Gwydr
Llestri cinio
Wrn de efydd
Dresel gegin
Byrddau cegin
Cypyrddau dillad
Offer cegin ac ati
Gwydrau a llestri
Ffaeton dwbl
Ffaeton merlen
Harnais
Ceffyl iach
Merlen

Ceisiwch ddysgu beth yw'r pethau hyn trwy chwilio ar y we. Yn ogystal â Wikipedia, dyma wefan arall sydd â lluniau: www.antiques-atlas.com.

**Gweithgaredd Ymestynnol:** Mae gennych gwmni dylunio mewnol yn Abertawe yn y 1850au. Mae cwsmer sy'n symud i Cambrian Place wedi gofyn i chi chwilio am ddodrefn ac eitemau eraill ar gyfer yr ystafelloedd gwely, y parlwr, yr ystafell fwyta a'r cyntedd. Does dim angen i chi edrych ar y gegin na rhannau eraill o'r tŷ. Casglwch ffotograffau neu frasluniau o ddodrefn ac eitemau eraill ffasiwn newydd i'r cwsmer gael eu dewis. Gallwch ddewis bod pob grŵp yn gwneud ystafell yr un.